Am wybodaeth fanylach am yr help ariannol sydd ar gael i bob myfyriwr, gallwch gael **'Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn 2009/10'** gan eich awdurdod lleol, trwy ffonio Canolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 neu trwy droi at ein gwefan sef www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk.

Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau cyn 1 Medi 2006, efallai y telir eich holl ffioedd dysgu neu rywfaifnt o'ch ffioedd dysgu ar eich rhan. Pryd bynnag y cychwynoch chi ar eich astudiaethau, gallwch gael benthyciad ffioedd i gyfateb â'r ffi a godir arnoch chi neu unrhyw gyfraniad y bydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at ffioedd.

Daw help tuag at eich costau byw o gyfuniad o fenthyciadau myfyrwyr a grantiau. Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2006, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad neu Grant Cymorth Arbennig hefyd. Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau cyn 1 Medi 2006, efallai y byddwch yn gymwys i gael y Grant Addysg Uwch. Asesir y rhain gan eich awdurdod lleol fel rhan o'ch

prif gais am gymorth. Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2006, efallai y byddwch yn cael bwrsariaeth gan eich prifysgol neu goleg hefyd.

Er eich bod efallai yn pryderu ynghylch cael benthyciadau, dylech gofio nad yw'r benthyciadau yn cael eu rhoi yn unol ag amodau masnachol. Mae'r gyfradd llog y bydd yn rhaid i chi ei thalu yn cyfateb ag MPM (mynegai prisiau manwerthu), o'i chymharu â chyfraddau masnachol o hyd at 16% o ran y gyfradd ganrannol flynyddol (APR). Y gyfradd llog yw'r swm sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal gwerth y balans i'w dalu yn unig, er mwyn sicrhau eich bod yn ad-dalu'r hyn a fenthycwyd i chi mewn termau real. Bydd y gyfradd llog hon yn berthnasol o'r dyddiad y byddwch yn cael y benthyciad nes y dyddiad y byddwch yn ei ad-dalu.

Dim ond ar ôl i chi gwblhau eich cwrs neu adael eich cwrs y bydd yn rhaid i chi ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Mae'r gyfradd ad-dalu yn gysylltiedig â'ch incwm yn uniongyrchol er mwyn sicrhau y byddwch yn gallu fforddio'ch ad-daliadau misol. Os yw'ch incwm yn is na'r trothwy, ni fydd yn rhaid i chi wneud unrhyw ad-daliadau.

3 Enghraifft o incwm myfyriwr sy'n rhiant

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos yr hyn y gallai'ch incwm fod yn 2008/09, gan ddibynnu ar yr adeg pan wnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau, os ydych yn gymwys i gael y Grant Gofal Plant a grantiau eraill.

Mae gan riant unigol sy'n dilyn cwrs amser llawn, ddau o blant ifanc, un yn ddwy oed a'r llall yn

chwech oed. Ar hyn o bryd, mae'n cael Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Tai i'w helpu i dalu ei rhent am fflat y mae cymdeithas dai yn berchen arno. Pan fydd yn astudio, mae'n talu £200 yr wythnos i warchodwr plant cofrestredig i ofalu am y plentyn 2 oed drwy'r dydd ac am y plentyn chwech oed ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau.

Os oedd wedi cychwyn ar ei hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2006, byddai modd iddi gael y canlynol. Gan ei hawdurdod lleol (neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr)

Disgrifiad	Swm uchaf sydd ar gael	Math o arian
Benthyciad myfyrwyr i dalu ffioedd dysgu	£1,285	Benthyciad
Benthyciad myfyrwyr ar gyfer cynhaliath (y tu allan i Lundain)	£4,745	Benthyciad
Grant Cymorth Arbennig (nad yw'n cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith wrth gyfrifo budd-daliadau)	£2,906	Grant
Lwfans Dysgu i Rieni (nad yw'n cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith)	£1,508	Grant
Grant Gofal Plant (nad yw'n cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith)	£8,840 (£200 x 85% x 52 wythnos = £8,840)	Grant
Cyfanswm y benthyciad	£6,030	
Cyfanswm y grant	£13,145	
Cyfanswm	£19,284	

Gan Gyllid a Thollau EM

Disgrifiad	Swm uchaf sydd ar gael	Math o arian
Credyd Treth Plant	Hyd at £4,075	Credyd treth

Gan ei choleg

Disgrifiad	Swm uchaf sydd ar gael	Math o arian
Bwrsariaethau	O fis Medi 2007, mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr dan Fwrsariaeth Genedlaethol newydd [£319]. Cynghorir myfyrwyr sy'n astudio rywle arall yn y DU ac sy'n cael cyfanswm llawn Grant Dysgu'r Cynulliad sef £2,906, neu Grant Cymorth Arbennig, ac sy'n gorfod talu'r ffioedd dysgu llawn sef £3,225, i wneud cais am fwrsariaeth gan eu sefydliad yn 2009/10.	Bwrsariaeth
Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (efallai y byddant yn cael eu hystyried gan Ganolfan Byd Gwaith wrth gyfrifo budd-daliadau)	A benderfynir gan y brifysgol neu'r coleg, gan ddibynnu ar ei hamgylchiadau.	Grant

Yn ogystal, mae'n gallu hawlio Budd-dal Tai a Chymhorthdal Incwm ym mis Gorffennaf a mis Awst, ac efallai y bydd yn gallu cael rhywfaint o Fudd-dal Tai yn ystod gweddill y flwyddyn.

3 Enghraifft o incwm myfyriwr sy'n rhiant

Os oedd wedi cychwyn ar ei hastudiaethau cyn 1 Medi 2006, byddai modd iddi gael y canlynol.

Gan ei hawdurdod lleol

Disgrifiad	Swm uchaf sydd ar gael	Math o arian
Telir ei ffioedd dysgu yn llawn	£1,285	Grant
Benthyciad myfyrywyr (y tu allan i Lundain)	£4,745	Benthyciad
Grant Addysg Uwch	£1,000	Grant
Grant Dysgu'r Cynulliad	£500	Grant
Lwfans Dysgu i Rieni (nad yw'n cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith wrth gyfrifo budd-daliadau)	£1,508	Grant
Grant Gofal Plant (nad yw'n cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith)	£8,840 (£200 x 85% x 52 wythnos = £8,840)	Grant
Cyfanswm y benthyciad	£4,745	
Cyfanswm y grant	£13,073	
Cyfanswm	£17,878	

Gan Gyllid a Thollau EM

Disgrifiad	Swm uchaf sydd ar gael	Math o arian
Credyd Treth Plant	Hyd at £4,715	Credyd treth

Gan ei choleg

Disgrifiad	Swm uchaf sydd ar gael	Math o arian
Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (efallai y bydd yn cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith wrth gyfrifo budd-daliadau)	A benderfynir gan y brifysgol neu'r coleg, gan ddibynnu ar ei hamgylchiadau.	Grant

Yn ogystal, mae'n gallu hawlio Budd-dal Tai a Chymhorthdal Incwm ym mis Gorffennaf a mis Awst, ac efallai y bydd yn gallu cael rhywfaint o Fudd-dal Tai yn ystod gweddill y flwyddyn.

4 Sut i wneud cais

Yn gyntaf, dylech wneud cais i'ch awdurdod lleol am help i dalu'ch ffoedd dysgu, benthyciad myfyrwyr ar gyfer cynhaliadaeth a help ychwanegol i dalu'ch costau fel myfyriwr sy'n rhiant. Os gwnaethoch gychwyn ar eich cwrs cyn 1 Medi 2006, gallwch wneud cais am y Grant Addysg Uwch. Os gwnaethoch gychwyn ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2006, gallwch wneud cais am Grant Dysgu'r Cynulliad neu, os ydych yn gymwys am fudd-daliadau'r wladwriaeth fel Cymhorthdal Incwm neu Fudd-dal Tai tra byddwch yn astudio, y Grant Cymorth Arbennig.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am y Grant Gofal Plant, dylech hysbysu'ch awdurdod lleol o hyn pan fyddwch yn cael eich asesu am gymorth ariannol. Byddant yn anfon ffurflen fer '**Cais am help gyda chostau gofal plant**' (CCG1) atoch er mwyn i chi ddarparu gwybodaeth am eich anghenion gofal plant, ynghyd â manylion eich darparwr gofal plant. Os nad ydych yn gwybod eich costau gofal plant, gallwch amcangyfrif y costau tebygol ar gyfer eich blwyddyn academaidd. Os bydd eich costau gofal plant yn amrywio bob wythnos, rhaid i chi ddarparu'r dyddiadau a'r gwahanol gostau wythnosol ar ffurflen CCG1. Yna, bydd eich awdurdod lleol yn seilio'ch Grant Gofal Plant ar yr amcangyfrifon a ddarparwyd gennych. Os nad oes gennych ddarparwr gofal plant eto, gallwch anfon eich ffurflen gais i mewn ond bydd yn rhaid i chi gadarnhau manylion eich darparwr yn nes ymlaen yn ystod eich tymor cyntaf pan fyddwch yn cadarnhau'r taliadau yr ydych wedi'u gwneud.

Mae ail ffurflen, '**Cadarnhad Taliadau Gofal Plant**' (CCG2) yn gofyn am dystiolaeth ynghylch taliadau yr ydych wedi'u gwneud i'ch darparwr gofal plant ac am fanylion unrhyw newidiadau o ran eich amgylchiadau. Dylech lenwi rhan 1 o'r ffurflen. Gofynnwch i'ch darparwr gofal plant i lenwi a llofnodi rhan 2 o'r ffurflen er mwyn cadarnhau'ch taliadau. Bydd eich awdurdod lleol yn gostwng neu'n cynyddu eich rhandaliad nesaf o'r Grant Gofal Plant, gan ddiwynnu a oedd eich costau gofal plant amcangyfrifedig a nodwyd ar eich ffurflen gais yn uwch neu'n is na'r symiau go iawn a dalwyd gennych i'ch darparwr.

Dylech anfon ffurflen CCG2 ar wahân (a ddarparir gan eich awdurdod lleol) at eich awdurdod lleol erbyn y dyddiadau canlynol.

6 Tachwedd 2009 – i gadarnhau taliadau a wnaethpwyd rhwng 1 Medi 2009 a 25 Hydref 2009

5 Chwefror 2010 – i gadarnhau taliadau a wnaethpwyd rhwng 27 Hydref 2009 a 24 Ionawr 2010

10 Medi 2010 – i gadarnhau taliadau a wnaethpwyd rhwng 29 Ionawr 2010 a 30 Awst 2010 (27 Gorffennaf 2010 os ydych ym mlwyddyn olaf eich cwrs neu os nad ydych yn manteisio ar ofal plant yn ystod gwyliau'r haf).

Os na allwch ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol erbyn y dyddiadau hyn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol. Yn ogystal, gallwch ddefnyddio rhan 3 ffurflen CCG2 i hysbysu'ch awdurdod lleol os bydd eich costau gofal plant wythnosol yn newid yn ystod y flwyddyn academaidd. Ni fyddwch yn cael eich rhandaliad nesaf o'r Grant Gofal Plant os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen erbyn y dyddiadau uchod. Os byddwch yn dychwelyd eich ffurflen yn hwyr, gallai hyn arwain at oedi gyda'ch taliad Grant Gofal Plant nesaf. Os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen o gwbl, efallai y byddwch yn colli eich Grant Gofal Plant ac efallai y gofynnir i chi ad-dalu unrhyw Grant Gofal Plant yr ydych wedi'i gael yn barod.

Yn gyffredinol, telir eich Grant Gofal Plant ar ffurf tri rhandaliad ar wahân, gyda gweddill eich cymorth i fyfyrwyr yn cael ei dalu ar ddechrau pob tymor. Os bydd yn rhaid i chi dalu costau gofal plant rhwng dechrau eich blwyddyn academaidd (1 Medi fel arfer) a diwrnod cyntaf eich tymor, bydd eich taliad cyntaf yn cynnwys y cyfnod hwn. Os bydd eich blwyddyn academaidd 2009/10 yn cychwyn yn yr hydref, y dyddiad cynharaf y bydd modd i chi ddechrau hawlio Grant Gofal Plant fydd o 1 Medi 2009. Os bydd yn rhaid i chi dalu costau gofal plant yn ystod eich gwyliau haf, bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn rhandaliad eich tymor olaf. Fel arfer, bydd y gwyliau haf yn cynnwys y cyfnod hyd at a chan gynnwys 31 Awst. Os ydych ym mlwyddyn olaf eich cwrs, dim ond tan ddiwrnod olaf eich tymor olaf y bydd modd talu'r Grant Gofal Plant.

Yn ogystal, gallwch gael y ffurflenni 'Cais am help gyda chostau gofal plant' a 'Cadarnhad Taliadau Gofal Plant' o'n gwefan cymorth i fyfyrwyr sef www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk lle y bydd modd i chi eu lawrlwytho a'u hargraffu.

5 Budd-daliadau a myfyrwyr

Sylwer bod y wybodaeth a nodir yma yn wybodaeth gyffredinol. Os ydych o'r farn eich bod yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol, dylech gysylltu â'ch Canolfan Byd Gwaith, eich swyddfa Budd-dal Tai neu'ch gwasanaeth cynghori myfyrwyr lleol.

Yn gyffredinol, ni fydd myfyrwyr addysg uwch amser llawn yn gymwys i gael unrhyw fudd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm oni bai eu bod yn perthyn i un o'r grwpiau 'agored i niwed', er enghraifft, rhieni unigol neu fyfyrwyr anabl. Fodd bynnag, os oes gan y myfyriwr bartner nad ydynt yn fyfyrwr ac os bydd y partner hwnnw/honno yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, gall y partner hawlio ar ran y cwpl. (Ystyrir incwm y myfyriwr wrth asesu hawl eu partner i gael budd-daliadau prawf modd.)

I nifer o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, bydd eu cymorth i fyfyrwyr yn rhy uchel i'w galluogi i gael budd-daliadau. Fodd bynnag, ni ystyrir symiau ariannol penodol wrth gyfrifo incwm myfyriwr. Ers mis Medi 2004, gall myfyrwyr mewn un o'r grwpiau agored i niwed sy'n byw mewn llety y mae'r brifysgol yn berchen arno, wneud cais am Fudd-dal Tai yn ystod y tymor.

Yn ogystal, efallai y bydd o gymorth i chi holi gwasanaethau cynghori eich undeb myfyrwyr neu'r adran gwasanaethau myfyrwyr am gyngor.

Mae'r tabl isod yn dangos y grwpiau agored i niwed perthnasol ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm a pha fudd-daliadau y gallent fod yn gymwys i'w cael.

Myfyrwyr a allai fod yn gymwys i gael budd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm	Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor (gweler nodyn 1)	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith
Rhieni unigol	✓	✓	
Cyplau sy'n fyfyrwyr ac y mae ganddynt blant dibynnol	✓	✓ (gweler nodyn 2)	✓ (gweler nodyn 2)
Myfyrwyr sy'n gorymddwyn (gweler nodyn 3) ar ôl cyfnod o salwch neu o ofalu am rywun	✓		✓
Pobl anabl sy'n cael premiwm anabledd neu bremiwm anabledd difrifol	✓	✓	
Pobl anabl sy'n cael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (grant a delir dan y system cymorth i fyfyrwyr) oherwydd byddardod	✓	✓	
Pensiynwyr (oedran ymdeol y wladwriaeth)	✓	(gweler nodyn 4)	

Nodyn 1 - Ers mis Ebrill 2004, ni ddylai'r rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn orfod talu unrhyw Dreth Gyngor oni bai eu bod yn berchnogion preswyl y mae ganddynt unigolyn arall yn byw gyda nhw ac yn talu rhent iddynt.

Nodyn 2 - Gall un aelod o'r cwpl hawlio yn ystod y gwyliau hir.

Nodyn 3 - Gorymddwyn yw pan fydd myfyriwr wedi gohirio ei astudiaethau (er enghraifft, oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu) ond er bod y rheswm dros y gohirio wedi dod i ben, ni all y myfyriwr barhau ar y cwrs eto.

Nodyn 4 - O 6 Hydref 2003, dylai pensiynwyr fod wedi cael y Credyd Pensiwn newydd yn hytrach na Chymhorthdal Incwm.

5 Budd-daliadau a myfyrwyr

Sut mae Canolfan Byd Gwaith neu'r swyddfa Budd-dal Tai leol yn cyfrifo'r hyn yr ydych chi'n gymwys i'w gael?

Ym mwyafrif yr achosion, mae cyllid myfyrwyr yn disodli budd-daliadau fel prif ffynhonnell y cymorth i fyfyrwyr, os ydynt yn penderfynu cael Benthyciad Cynhaliath neu beidio. Er mwyn asesu pa fudd-daliadau y bydd gennych yr hawl i'w cael, bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn cyfrifo'ch incwm wythnosol, gan gymharu hwn gyda'r budd-dal y bydddech yn ei gael bob wythnos.

Bydd nifer o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm yn darganfod bod eu hincwm cyllid myfyrwyr yn uwch na swm y budd-dal y byddent yn ei gael fel arfer. Gallai hyn arwain at y myfyriwr yn cael swm is o ran budd-daliadau neu ddim o gwbl. Fodd bynnag, ni fydd rhai mathau o gyllid myfyrwyr yn cael eu hystyried wrth gyfrifo swm y budd-dal y bydd myfyriwr yn gymwys i'w gael. Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o gyllid myfyrwyr y bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn eu hystyried wrth gyfrifo hawl myfyriwr i gael budd-daliadau, a'r mathau o gyllid myfyrwyr na fyddant yn eu hystyried.

Cyllid myfyrwyr y bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn ei ystyried fel rhan o'ch incwm

- Y rhan fwyaf o unrhyw Fenthyciad Cynhaliath yr ydych chi'n gymwys i'w gael, hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio manteisio ar y cymorth hwn
- Grant Dysgu'r Cynulliad/Grant Cynhaliath
- Grant Oedolion Dibynnol
- Taliadau gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn er mwyn helpu i dalu costau byw cyffredinol (er mwyn rhai amgylchiadau, efallai na fydd y taliad cyfan, neu ran o'r taliad, yn cael ei ystyried)
- Bwrsariaethau nad eu diben yw talu costau sy'n ymwneud â'ch cwrs, neu ofal plant

Cyllid myfyrwyr na fydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn ei ystyried fel rhan o'ch incwm

- Grant ffioedd dysgu
- Benthyciad myfyrwyr er mwyn talu ffioedd dysgu
- Grant Cymorth Arbennig
- Grant Addysg Uwch
- Grant Gofal Plant
- Lwfans Dysgu i Rien
- Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl
- Taliadau gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn nad ydynt ar gyfer talu costau byw cyffredinol
- Bwrsariaethau er mwyn talu costau sy'n ymwneud â'ch cwrs, neu ofal plant

Os ydych chi'n cael mathau eraill o gyllid myfyrwyr, dylech gysylltu â'ch cynghorydd myfyrwyr yn eich prifysgol neu goleg er mwyn darganfod a fyddant yn cael eu hystyried fel incwm wrth gyfrifo'ch hawl i gael budd-daliadau.

Oherwydd bod y Benthyciad Cynhaliath i fyfyrwyr yn darparu help tuag at eich costau sy'n gysylltiedig â'ch cwrs hefyd, wrth gyfrifo'ch incwm wythnosol, ni fydd swm penodedig i'w wario ar lyfrau, offer a chostau teithio yn cael ei ystyried. Ni fydd £10 ychwanegol o'ch incwm wythnosol yn cael ei ystyried chwaith. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2008/09, y symiau penodedig nad oeddent yn cael eu cyfrif fel incwm oedd £380 tuag at gost llyfrau ac offer a £295 ar gyfer costau teithio. O fis Awst 2009, bydd gwasanaeth cynghori myfyrwyr eich prifysgol neu goleg yn gallu nodi'r symiau ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10. Mae Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i seilio ar incwm yn fudd-daliadau a delir ar gyfer oedolion yn unig. Erbyn hyn, mae'r credydau treth a delir gan Gyllid a Thollau EM yn talu'r elfennau a dalwyd ar gyfer plant yn flaenorol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan Ganolfan Byd Gwaith neu Gyllid a Thollau EM.

5 Budd-daliadau a myfyrwyr

Sut i wneud cais

Pan fyddwch yn hawlio budd-dal, gofynnir i chi am dystiolaeth o'ch manylion personol, ynghyd â manylion personol eich partner a'ch plant pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, gofynnir i chi ddarparu dystiolaeth arall i gefnogi'ch cais, er enghraifft, llythyr gan eich awdurdod lleol (neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr) sy'n dangos dadansoddiad o'ch taliadau cymorth i fyfyrwyr, cyfriflenni banc a chytundebau rhentu.

Bydd yr union ddogfennau y bydd eu hangen arnoch yn dibynnu ar y budd-dal y byddwch yn ei hawlio. Fel arfer, nodir y dogfennau y bydd eu hangen arnoch ar y ffurflen hawlio berthnasol. Os byddwch yn ymweld â'r swyddfa berthnasol i gael y ffurflen ac i wneud y cais, bydd o gymorth os byddwch yn dod â'r canlynol gyda chi.

- Eich rhif Yswiriant Gwladol a rhif Yswiriant Gwladol eich partner (os yw hyn yn berthnasol). Yn ogystal â hyn, neu os nad oes un gennyh neu os ydych wedi'i golli, bydd angen i chi gael prawf arall o'ch manylion personol hefyd, fel:
 - tystysgrif geni neu basport – ar eich cyfer chi ac unrhyw aelodau o'ch teulu yr ydych yn hawlio ar eu cyfer; a
 - chyfeirnod Budd-dal Plant.
- Tystiolaeth o'ch **costau llety**, megis:
 - datganiad morgais;
 - cytundeb tenantiaeth; neu
 - llyfr rhent.
- Tystiolaeth o'ch **incwm a'ch cynilion**, megis:
 - llythyr gan eich awdurdod lleol (neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr) sy'n dangos dadansoddiad o'ch cymorth i fyfyrwyr;
 - cyfriflenni banc diweddaraf;
 - llyfrau cynilion; neu
 - unrhyw ddatganiad bwrsariaeth neu daliad gan Gronfa Ariannol wrth Gefn eich prifysgol neu goleg.

Beth sy'n digwydd yn ystod y gwyliau haf?

Ar gyfer budd-daliadau prawf modd, asesir taliadau cymorth i fyfyrwyr ar draws y tri chwarter academaidd (gan gychwyn ar 1 Medi, 1 Ionawr ac 1 Ebrill) pan fydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn talu rhandaliadau cymorth i fyfyrwyr. Ystyrir eich incwm fel myfyriwr ar gyfer nifer llawn yr wythnosau budd-dal o 1 Medi tan 30 Mehefin (bydd y dyddiadau hyn yn wahanol i fyfyrwyr nad ydynt yn cychwyn ar eu cyrsiau yn ystod yr hydref). Efallai y bydd myfyrwyr yn y grwpiau a bennir yn rhai agored i niwed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn cael budd-dal yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst ar gyfer cyrsiau sy'n para dros flwyddyn. Fodd bynnag, bydd budd-daliadau yn cael eu hasesu eto o'r wythnos lawn gyntaf ym mis Medi. Yn gyffredinol, bydd cymorth i fyfyrwyr a rhoddir i fyfyrwyr sydd yn eu blwyddyn olaf yn cael ei ystyried tan wythnos fudd-dal lawn olaf eu tymor olaf.

I nifer o fyfyrwyr, ni fydd eu tymor yn cychwyn tan ddiwedd mis Medi ac ni fyddant yn gallu cael eu benthyciad tan ddechrau'r tymor. Fodd bynnag, gall myfyrwyr gael help gan Gronfa Ariannol wrth Gefn eu prifysgol neu goleg ar gyfer y cyfnod hwnnw, a dylent gysylltu â Gweinyddwr y Gronfa yn ystod tymor yr haf er mwyn trefnu cymorth ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf. Os bydd y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn rhoi benthyciad tymor byr yn benodol er mwyn helpu'r myfyriwr i ymdopi nes byddant yn cael y benthyciad myfyrwyr, ni ddylid ystyried hwn fel incwm, ac ni fydd yn rhaid i'r myfyriwr gael benthyciad myfyrwyr arall er mwyn cael y benthyciad hwn ar gyfer y tymor byr. Gall myfyrwyr sydd ar fin cychwyn ar eu blwyddyn gyntaf gael budd-daliadau nes diwrnod cyntaf y cwrs.

Am ragor o wybodaeth am fyfyrwyr a budd-daliadau, gallwch gael llyfryn o'r enw 'Gadawyr Ysgol a Myfyrwyr' gan eich Canolfan Byd Gwaith, neu throwch at wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau sef www.dwp.gov.uk.

6 Credydau treth

Gweinyddir dau gredyd treth gan Gyllid a Thollau EM. Y rhain yw'r Credyd Treth Plant (i gynorthwyo teuluoedd sy'n cynnwys plant) a'r Credyd Treth Gwaith (i gynorthwyo gweithwyr ar gyflogau isel a phobl hunangyflogedig).

Mae'r **Credyd Treth Plant** yn darparu un system cymorth sy'n gysylltiedig ag incwm. Fe'i telir yn uniongyrchol i gyfrif banc yr unigolyn yn y teulu sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plant. Nid oes yn rhaid i unigolyn fod yn gwneud gwaith am dâl er mwyn cael Credyd Treth Plant. Mae myfyrwyr y mae ganddynt blant yn gymwys i'w hawlio. Ar yr amod eich bod yn 16 oed neu'n hŷn ac yn gyfrifol am un plentyn neu fwy, neu berson ifanc dan 19 oed mewn addysg berthnasol, efallai y byddwch yn gallu hawlio Credyd Treth Plant. Efallai y bydd modd i chi hawlio cyfradd uwch os oes gennych un plentyn dan un oed neu blentyn sydd ag anabledd. Os ydych yn cael Credyd Treth Plant, ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawl i gael y Grant Gofal Plant.

Telir y **Credyd Treth Gwaith** i bobl sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel, i'r rhai y mae ganddynt blant a'r rhai nad oes ganddynt blant. Yn ogystal, mae'n rhoi cymorth ychwanegol i bobl anabl yn y gwaith. I fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith, rhaid i chi fodloni'r amodau canlynol fel arfer:

- rhaid i chi fod yn 25 oed neu'n hŷn ac yn gweithio 30 awr yr wythnos neu fwy;
- rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn ac yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dan 19 oed sydd mewn addysg amser llawn ar lefel islaw CGC lefel 4, lefel gradd, DCU neu lefel gyfatebol, ac yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy; neu
- mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn, yn meddu ar anabledd sy'n eich rhoi chi dan anfantais wrth geisio sicrhau swydd, yn bodloni prawf 'budd-dal cymwys' neu reolau 'trywydd carlam' Cyllid a Thollau EM ac yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy.

Gall y Credyd Treth Gwaith gynnig help i dalu costau gofal plant cofrestredig ar gyfer y rhai y mae ganddynt blant, trwy gyfrwng elfen gofal plant, gan dalu 80% o'r costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwyedig. I fod yn gymwys i gael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, rhaid i riant unigol fod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac i gyplau, rhaid i'r ddau fod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos (oni bai bod un ohonynt yn glaf yn yr ysbyty, yn y carchar, neu'n methu gweithio oherwydd salwch neu anabledd). Hyd yn oed os ydych yn bodloni'r amodau hyn, nid oes yn rhaid i chi hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith. Gall myfyrwyr amser llawn ddewis rhwng elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a'r Grant Gofal Plant. Ni allwch chi, eich gŵr neu'ch gwraig, neu'ch partner gael y Grant Gofal Plant os ydych yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith gan Gyllid a Thollau EM.

Cymorth i fyfyrwyr a chredydau treth

Ni ddylid ystyried y rhan fwyaf o elfennau cymorth i fyfyrwyr fel incwm ar gyfer credydau treth. Fodd bynnag, bydd y Grant Oedolion Dibynnol yn cael ei ystyried fel incwm at ddibenion credyd treth.

Os hoffech gael gwybod mwy am gredydau treth, gallwch:

- ffonio'r llinell gymorth credydau treth ar 0845 300 3900 (ffôn testun 0845 300 3909); neu
- alw heibio canolfan ymholiadau leol Cyllid a Thollau EM (a restrir dan 'HM Revenue and Customs' yn y llyfr ffôn); neu
- droi at y wefan sef <http://www.hmrc.gov.uk/individuals/tmataxcredits.shtml>.

7 Gwybodaeth gyffredinol am gymorth i fyfyrwyr

I gael rhagor o wybodaeth am gymorth i fyfyrwyr, gallwch gael copi o '**Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn 2009/10**' gan eich awdurdod lleol trwy ffonio 0800 731 9133 neu droi at wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sef www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk.

Pwy y dylech chi gysylltu â nhw?

- Os oes gennych ymholiadau ynghylch cyllid myfyrwyr a sut i wneud cais, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru

neu'ch awdurdod lleol.

- I wneud cais ar-lein, trowch at www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk
- I gael copi papur o'r ffurflen gais, cysylltwch â'ch awdurdod lleol
- I gael copi o un o'n canllawiau, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru neu gallwch lawrlwytho copïau o wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru

Rhestr cysylltiadau

Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru

Bellach, gall myfyrwyr sy'n byw yng **Nghymru** ddefnyddio Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru (CGCMC) i fanteisio ar ystod o wybodaeth ynghylch cyllid myfyrwyr.

Mae CGCMC yn rhoi cyngor ynghylch ymholiadau cyffredinol megis:

- pa help ariannol sydd ar gael;
- y broses ymgeisio a'r amserlen;
- cwestiynau am y gwasanaethau ar-lein yn www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk;
- cynnydd wrth asesu'ch cais; a
- thalu'ch benthyciad.

Gallwch gysylltu â CGCMC ar 0845 602 8845 rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb ac 1yh ar ddydd Sadwrn.

Yn ogystal, gallwch ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael trwy droi at www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk i:

- ddarganfod faint o fenthyciad a help tuag at eich ffioedd yr ydych yn debygol o'i gael gan ddefnyddio'r 'canllaw cyfrifo';
- cadw golwg ar gynnydd eich cais;
- diweddarau'ch cyfeiriad a'ch manylion cyswllt eraill;
- gweld copïau o lythyrau a anfonwyd atoch chi;
- holi pryd y byddwch yn cael eich talu nesaf; a
- gofyn cwestiynau.

Awdurdodau lleol

Gall myfyrwyr sy'n byw yng **Nghymru** gysylltu â'u **hawdurdod lleol**. Mae awdurdodau lleol yn cynnig cyngor manwl ynghylch y cymorth y mae'n debygol y bydd gennych yr hawl i'w gael a chanlyniad yr asesiad o'ch cais.

Yn ogystal, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol os bydd angen i chi gael copi papur o ffurflen gais.

Gallwch weld rhestr o gysylltiadau awdurdodau lleol trwy droi at wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Os ydych yn yr ysgol o hyd, gall eich athro/athrawes gyrfaoedd roi cyfeiriad a rhif ffôn eich awdurdod lleol i chi.

Sut i gael canllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru

Gall myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ffonio **0800 731 9133** i archebu copi o unrhyw rai o'n canllawiau yn rhad ac am ddim.

7 Gwybodaeth gyffredinol am gymorth i fyfyrwyr

Os ydych yn byw yn Lloegr fel arfer, dylech gysylltu â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal yr ydych yn byw ynddi fel arfer i gael gwybod am y trefniadau cyllid myfyrwyr. Gallwch weld manylion cyswllt awdurdodau lleol yn y llyfr ffôn.

Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer, dylech gysylltu ag Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban i gael gwybodaeth am y trefniadau.

Yr Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban

Ffôn: 0845 111 1711

E-bost: saas.geu@scotland.gsi.gov.uk

Gwefan: www.saas.gov.uk

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon fel arfer, dylech gysylltu â'r Bwrdd Llyfrgelloedd ac Addysg ar gyfer yr ardal yr ydych yn byw ynddi fel arfer.

Gallwch weld manylion cyswllt ar gyfer y Byrddau Llyfrgelloedd ac Addysg trwy droi at www.education-support.org.uk.

Os ydych yn dod o'r Undeb Ewropeaidd, ond nid o'r DU, dylech gysylltu â'r:

Tim Gwasanaethau Cwsmeriaid yr UE

Ffôn: 0141 243 3570 (rhwyng 10yb a 4yh)

Gwefan: www.studentfinancedirect.co.uk/EU

E-bost: EU_team@slc.co.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch **ad-dalu'ch benthyciad myfyrwyr**, cysylltwch â:

The Student Loans Company Limited
100 Bothwell Street
Glasgow G2 7JD

Ffôn: 0800 40 50 10

Gwefan: www.slc.co.uk neu

www.studentfinancedirect.co.uk

Os nad ydych yn fyfyrwr addysg uwch amser llawn, neu os oes gennych anghenion penodol, gallwch gael rhagor o wybodaeth am y canlynol.

- Os ydych yn dymuno dilyn cwrs addysg uwch rhan-amser, trowch at y llyfryn '**Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn 2009/10**'.
- Os oes gennych anabled ac os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, gallwch gael y canllaw '**Pontio'r Bwlch**'

gan eich awdurdod lleol (neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr os yw'ch awdurdod lleol yn profi trefniadau cyllid myfyrwyr newydd) trwy ffonio 0800 731 9133 neu trwy droi at ein gwefan.

- Os ydych yn bwriadu dilyn cwrs addysg bellach, gallwch ddarganfod mwy trwy droi at y canllaw '**Arweiniad i Ffynonellau Ariannu**' neu '**Canllaw ar Gyllid i Oedolion mewn Addysg**' sydd ar gael trwy droi at: <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/learnerfundingguide/?lang=cy>
Gellir cael help pellach trwy droi at: <http://wales.gov.uk/news/archivepress/educationpress/edpress2006/1087552/?lang=cy>
- Os ydych yn dymuno astudio cwrs ym maes nyrso, bydweigiaeth neu'r proffesiynau iechyd cysylltiedig eraill, gallwch gael gwybodaeth am gynllun bwrsariaeth GIG yng nghanllaw Uned Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru '**Help Ariannol i Fyfyrwyr Gofal Iechyd yng Nghymru**'. Gallwch gael copi o'r llyfryn ar-lein trwy droi at www.nliah.wales.nhs.uk neu trwy gysylltu ag: Uned Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru
Am ymholiadau ynghylch bwrsariaethau, ffoniwch: 029 20196167
Am ymholiadau ynghylch gofal plant, ffoniwch: 029 20196168
- Am fanylion ynghylch y gwahanol lwybrau i'w dilyn er mwyn cael gyrfa ym myd addysg, a'r arian sydd ar gael neu'r cyrsiau hyn, ffoniwch y Llinell Wybodaeth Addysgu ar 0845 6000 991, neu trowch at ei gwefan sef www.tda.gov.uk/Recruit.aspx?WT.mc_id=teach

Rhagor o wybodaeth am astudio a budd-daliadau

Cysylltwch â'ch canolfan gynghori leol neu trowch at wefan y Ganolfan Gyngori sef www.citizensadvice.org.uk

Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (UCM) Cymru

Ffôn: (029) 2068 0070

Ffacs: (029) 2075 7083

E-bost: office@nus-wales.org.uk

Gwefan: www.nusonline.co.uk/wales/

8 Rhestr termau

Defnyddir y termau canlynol yn y canllaw hwn.

Benthyciadau: Benthyciadau a ddarparir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er enghraifft: ‘benthyciadau myfyrwyr’. Gweinyddir y rhain gan gwmni sy’n cael ei redeg gan y llywodraeth sef y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Bydd angen ad-dalu'r rhain ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau. Bydd yr ad-daliadau yn ddibynnol ar eich enillion.

Benthyciad Cynhaliath: Y rhan o'ch benthyciad myfyrwyr ar gyfer costau byw megis rhent a bwyd. Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref a'r man lle'r ydych yn astudio. Telir yr arian yn uniongyrchol i chi. Bydd angen ei ad-dalu ar ôl i chi orffen astudio, er y bydd yr ad-daliadau yn ddibynnol ar eich enillion.

Benthyciad Ffioedd Dysgu: Y rhan o'ch benthyciad myfyrwyr sy'n talu eich ffioedd dysgu. Ni fydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ac fe allai gyfateb â hyd at gost lawn eich ffioedd dysgu. Telir hwn yn uniongyrchol i'ch man astudio.

Bwrsariaeth: Arian a delir i chi gan eich sefydliad er mwyn helpu gyda'ch astudiaethau. Fel arfer, ni fydd yn rhaid ad-dalu hwn. Os byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint o'r grant.

Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr: Cwmni di-elw y mae'r llywodraeth yn berchen arno ac sy'n gweinyddu cymorth ariannol i fyfyrwyr.

Ffioedd dysgu: Y rhan o'ch benthyciad myfyrwyr sy'n talu eich ffioedd dysgu. Ni fydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ac fe allai gyfateb â hyd at gost lawn eich ffioedd dysgu. Telir hwn yn uniongyrchol i'ch man astudio. Bydd angen ei ad-dalu ar ôl i chi orffen astudio, er y bydd yr ad-daliadau yn ddibynnol ar eich enillion.

Grant: Arian a delir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i chi er mwyn eich helpu gyda'ch astudiaethau. Ni fydd yn rhaid ad-dalu hwn fel arfer.

Grant Dysgu'r Cynulliad: Grant sydd ar gael i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel, y cynhelir prawf modd ar ei gyfer. Fel arfer, ni fydd yn rhaid ad-dalu hwn. Os byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint o'r grant.

Grant Ffioedd Dysgu: Grant sydd ar gael i fyfyrwyr a gychwynnodd ar eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2006, sy'n byw yng Nghymru ac sy'n penderfynu astudio yng Nghymru. Ni fydd hwn yn dibynnu ar incwm y cartref.

Grant Talu Ffioedd: Grant o hyd at swm llawn eich ffioedd dysgu, sydd ar gael i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel a gychwynnodd ar eu hastudiaethau cyn 1 Medi 2006. Ni fydd yn rhaid ad-dalu hwn.

9 Mynegai

A AGGCC	9	G Geirfa termau	23
Asesiad incwm	6	Gofal plant cofrestredig	9
		Gofal plant cymeradwyedig	9
B Benthyciad Cynhaliaeth	4	Gogledd Iwerddon	22
Benthyciad ffioedd dysgu	4	Grant Addysg Uwch	15
Benthyciad myfyrwyr ar gyfer cynhaliaeth	6	Grant ffioedd dysgu	4
Benthyciad myfyrwyr ar gyfer ffioedd	5	Grant Gofal Plant	8
Budd-dal Tai	17	Grant Oedolion Dibynnol	10
Budd-daliadau	17	Gwneud Cais am Grant Gofal Plant	16
Bwrsariaeth GIG	22		
		L Lloegr	22
C Canolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru	21	Lwfans Dysgu i Rieni	10
Childcare Link	8	Lwfansau i Gweler Pontio'r Bwlch	
Credydau Treth	20	Fyfyrwyr Anabl (DSAs)	SFW/BTGB/V9
Credyd Treth Gwaith	20		
Credyd Treth Plant	20	M Myfyrwyr rhan-amser	Gweler y Canllaw i fyfyrwyr rhan-amser
Cronfa Ariannol wrth Gefn	11	Myfyrwyr yr UE (Heb fod yn dod o'r DU)	22
Cyllid a Thollau EM	15		
		U Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	22
		Y Yr Alban	22